motor neurone disease association
cymdeithas clefyd motor niwron

# Ymwelydd y Gymdeithas

"Mae'n fraint bod yn wirfoddolwr i Gymdeithas MND. Y peth sydd yn rhoi'r boddhad mwyaf yw gwybod fy mod wedi helpu pobl i gael mynediad at y gwasanaeth, y cyfarpar a'r cymorth sydd ei angen arnynt." Jo-Ann, Gwirfoddolwr

## Beth mae'n ei olygu?

**Mae Ymwelwyr y Gymdeithas:**

- Yn cynnig cymorth emosiynol i bobl sydd wedi eu heffeithio gan MND
- Yn rhoi gwybodaeth i bobl sydd wedi eu heffeithio gan MND
- Yn helpu pobl sydd wedi eu heffeithio gan MND i wneud dewisiadau gwybodus
- Yn helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau / cymorth priodol
- Yn esbonio i bobl sydd wedi eu heffeithio gan MND sut mae'r Gymdeithas MND yn gallu eu cynorthwyo
- Yn cofnodi gwybodaeth gan ddilyn canllawiau y Gymdeithas MND a phrotocolau lleol
- Yn datblygu ac yn cynnal perthynas gyda'n cangen neu grŵp lleol
- Yn mynychu cyfarfodydd cymorth a goruchwyliaeth yn ogystal â digwyddiadau datblygu

## Bydd y rôl yma yn addas i mi:

- Os oes gennyf sgiliau gwrando da
- Os wyf yn gallu cyfathrebu'n dda
- Os wyf yn gallu datblygu a chynnal perthynas gefnogol gyda phobl sydd wedi eu heffeithio gan MND
- Os nad wyf yn feirniadol ac yn parchu ffyrdd o fyw amrywiol
- Os wyf yn gallu gweithio fel rhan o dîm
- Os wyf yn barod i gynyddu fy nealltwriaeth o MND a'i effaith ar deuluoedd
- Os wyf yn deall yr angen am gyfrinachedd a phwysigrwydd diogelu data
- Os wyf yn gallu asesu pa gymorth ychwanegol sydd ei angen



## Sut ydw i yn elwa?

- Dod yn rhan o dîm cyfeillgar ac ymroddedig
- Yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sydd wedi eu heffeithio gan MND
- Yn cael mynediad at ystod o weithdai a digwyddiadau

## Pa fath o hyfforddiant/sefydlu fyddaf yn ei gael cyn dechrau?

Byddwch yn cael eich sefydlu yn y rôl ac yn cael gwybodaeth am y Gymdeithas. Fel rhan o hyn, byddwch yn cael sesiynau e-ddysgu, hyfforddiant wyneb yn wyneb a mentora. Bydd y rhaglen hyfforddiant hefyd yn cynnwys dysgu profiadol ac adlewyrchol.

## Beth yw'r cam nesaf?

Mynegwch eich diddordeb neu gallwch gael mwy o wybodaeth trwy ebostio volunteering@mndassociation.org neu ffoniwch ni ar 01604 611681. Rydym yn annog ac yn croesawu ceisiadau o bob cefndir a phob cymuned.